Central South Consortium
Consortiwm Canolbarth y De
Joint Education Service
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd

EAS
Education Achievement Service
for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg
i Dde Ddwyrain Cymru

ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working
www.erw.org.uk

GwE
Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Asesiad Athro

Cyfnodau Allweddol 2 a 3

Cymraeg : proffil dysgwr

Lefel 6

Rhagarweiniad

Bwriad y proffil hwn yw cynorthwyo athrawon o ran y mathau o dystiolaeth y gallan nhw eu cymryd i gyfarfod clwstwr er mwyn cefnogi'r canfyddiadau cyd-fynd orau a wnaethpwyd. Mae'r proffil hefyd yn dangos bod y dystiolaeth i'w chanfod yn bennaf yn llyfr y disgybl, ac felly eisoes ar gael i'r athrawon.

Mae'r proffil hefyd yn cynnwys sylwebaeth fanwl sy'n cynnig eglurhad clir o ran pam y cafodd y lefel cyd-fynd orau ei phennu. Does dim awgrym na disgwyliad bod angen cynhyrchu proffil ar gyfer pob disgybl yn y cohort nac ychwaith yr angen i athrawon ysgrifennu sylwebaeth mor gynhwysfawr.

DIANC

Disgwyliai'r brenin yn amyneddgar am symudiad nesaf y gelyn. Doedd dim arall i'w wneud ond disgwyl. Edrychai yn ei flaen, ac yna yn ôl ar ei fyddin flinedig. Hen le unig yw maes y gad ar ddiwrnod fel heddiw. Y distawrwydd llethol yn ysgwyd eu meddyliau, a'u cyrff yn stiff fel procar tân. Yna daeth y symudiad. Carlamodd un o'r marchogion yn ei flaen a chipio'i frenhines o dan ei drwyn. Doedd dim ennill wedi hyn. Roedd y frwydr drosodd. Ildiodd y brenin. Y Gwyn enillodd. Disgynnodd Y Du yn ôl i'r cefndir fel llwynog yn cilio i'w ffau.

Cododd Aled o'i gadair fel pe bai gwenyn wedi ei bigo yn ei ben ôl, taflodd ei freichiau i'r awyr i ddathlu ei lwyddiant. Ond gwelodd wyneb ei wrthwynebydd oedd yn cochi fwyfwy bob eiliad. Mygodd y floedd a oedd yn prysur drafeilio o'i stumog. Cynigiodd ei law i'w wrthwynebydd gan edrych yn hunan-falch yn syth i'w lygaid. Ef oedd pencampwr twrnament gwyddbwyll y clwb, ef, Aled Lloyd, a neb arall. Rhuthrai'r adrenalin o amgylch ei gorff a disgleiriai ei lygaid siocled trwy wydr tew ei sbectol gwaelod pot jam. Doedd dim ots ganddo am y môr o chwys a oedd yn rhedeg i lawr ei foch. Clywodd y gymeradwyaeth oedd yn dod o gefn y neuadd. Trodd ei ben i ddangos ei werthfawrogiad. Byr fu'r foment. Gwelodd y bobl yn rhuthro fel un am y drws. Teimlai mor unig â brenin ei elyn a safai ar y bwrdd gwyddbwyll wrth ei ymyl.

Rhag i'w goesau ei ollwng yn un twmpath i'r llawr, disgynnodd yn llipa yn ôl i'w gadair gan eistedd yno i feddwl, i bendroni. Oedd rhywun yn y byd annheg yma yn poeni am ei hapusrwydd ef? "Pam ta fi yw'r un od bob amser?" holodd mewn llais isel, gwan. Tawelwch. Unigrwydd. Dim ond y fo a'r gwyddbwyll oedd yno. Ei unig gwmni wedi ei



wneud allan o blastig rhad.

Llusgodd ei darian yn araf ar hyd y concrit dideimlad, oer. Yn sydyn reit cofiodd am yr adrenalin a feddiannodd ei gorff ychydig funudau yn ôl ac ymddangosodd gwên fechan ar ei wyneb gwelw. Na! Doedd neb am gael cymryd y fuddugoliaeth oddi arno! Neb!

Ond wrth iddo ymlwybro tuag adref synnodd o ddim pan glywodd y geiriau cyfarwydd.

" Ylwch pwy sy'n fama, hogia!"

'Sbia! Babi bach Linda Lush!"

"Gadewch lonydd i mi!"

Ceisiodd Aled fynd heibio a pheidio ag edrych ar yr hanner cylch o wynebau creulon oedd yn ei wawdio a'i boenydio.

"Pam ddyliwn i adael llonydd i ti?" meddai'r cawr yn fygythiol. "Dowch, hogia, fe rown ni anrheg fach i babi gwyddbwyll."

Teimlai Aled y panig yn codi oddi mewn iddo ond ni allai sgrechian. Doedd dim i'w achub. Gwelodd y cylch yn cau amdano. Curai ei galon fel gordd. Caeodd ei lygaid.

Mewn amrantiad toddodd y gelyn i'r tywyllwch. Uwchben curiad ei galon clywodd rywun yn chwerthin. Nid y chwerthin cras, creulon ond sŵn hapus pobl yn mwynhau eu hunain. Safodd Aled yn hir yn gwrando ar y sŵn. Er mor falch oedd o'i glywed, ni allai ond teimlo yn chwerw a blinedig. Roedd yn dal i glywed lleisiau'r bechgyn yn ei boenydio gyda'u geiriau creulon. Ni fyddai'r un gweir wedi gallu achosi mwy o boen iddo na'r sŵn hwnnw. Wedi'r cyfan mae briwiau corfforol yn gwella.

Ailgychwynnodd am adre, i fyny'r stryd fawr ac i lawr lôn gefn. Safodd yn stond. Yn y pellter, yn nrws ei hafan, gallai weld cysgod yn sleifio o'i gartref i dywyllwch du y nos. Pwy oedd o? Beth oedd o eisiau? Dechreuodd feddwl y gwaethaf. Efallai? Na! O na! Dim eto mam, plîs!

Cerddodd yn ei flaen gam wrth gam a'i galon ar dorri, ei lygaid wedi eu hoelio ar y gwm cnoi ar y palmant. Cyrhaeddodd y drws. Ceisiodd roi ei oriad yn y clo ond roedd ei ddwylo fel jeli. O'r diwedd llwyddodd a chlywodd y peirianwaith y tu mewn i'r clo yn troi. Biti na fyddai ei fywyd ef hefyd yn troi. Camodd yn betrus i mewn i'r tŷ gan ddisgwyl yr annisgwyl.

"M-------a-----m!"Roedd ofn yn ei lais.

"Be ddiawl wyt ti ishio?" mwmiodd ei fam a'i thafod yn dew.

"Mam, plîs peidiwch! Calliwch! Sobrwch!"

"Paid ti â siarad hefo fi fel'na! Pwy ddiawl wyt ti'n feddwl wyt ti?" Taniai fflamau yn llygaid ei fam. "Ti ydy'r diafol. Ti ydy achos fy holl helyntion. Ti yrrodd dy dad o'ma."

"Tydi hynna ddim yn wir," ceisiodd Aled ymresymu, "ddim y fi nathr hynny."

"Ia tad, chdi a dy blydi gwyddbwyll. Pa dad sy ishio mynd i'r dafarn i frolio bod ei fab yn chwarae gwyddbwyll a'r tadau eraill yn brolio fod ganddyn nhw hogia go iawn sy'n chwarae pêl-droed neu rygbi ac yn cael ffeit ar y ffordd adref. Cywilydd. Dyna pam aeth o i ffwrdd a ngadael i yn y twll yma gyda mab gwerth ceiniog a dima. Roedd o'n gwrthod

coelio mai fo oedd dy dad. Fyddai ei fab o byth wedi troi allan yn Feri Jên oedd yn debygol o fod yn batio i'r ochor arall mewn ychydig o flynyddoedd, medda fo."

"Tydw i ddim eisiau clywed hyn eto. Plîs peidiwch. Dw i ddim yn coelio fod Dad wedi dweud y fath beth."

Ond cofiai'r ffordd y byddai ei dad yn edrych arno a chofiai'r dirmyg a'r siom yn ei lygaid.

"Mae'r gwir yn brifo yn tydi! Dy fai di ydy hyn i gyd!"

Tawelwch, a'r ddau yn edrych i fyw llygaid ei gilydd.

Mentrodd Aled eto.

"Pwy oedd y dyn yna, Mam?"

"Meindia dy fusnes! Pam hyn? Pwy di hwn? Ti byth yn cau dy hen geg!"

Cododd ei braich yn araf a thywallt yr hylif di-liw i'w cheg.

"O ble daeth hon'na?"

"Be?"

" Y botel fodca yna."

" Y dyn llefrith - yn lle'r peint arferol! "A chwarddodd yn gras.

"Peidiwch dweud celwydd, Mam. Y dyn yna 'de?"

"Na!"

"Pam dach chi'n mynnu gwerthu'ch hun fel rhyw slwtan rad?"

Fel y gadawai'r geiriau ei geg daeth llaw ei fam fel mellten am ei foch.

"Paid ti â meiddio siarad fel'na hefo fi!" poerodd ei fam y geiriau yn ei wyneb.

"Sori."

"'Swn i'n meddwl hefyd, y cena bach!"

Llifodd y cochni i'w foch fel tasa fo wedi cael lliw haul ar un ochr i'w wyneb, ond nid oedd yn teimlo'r boen. Roedd y tu hwnt i deimlo bellach.

"Tyrd ti â phres i mi ta!" meddai'r fam yn heriol.

"I be?" mentrodd Aled.

"Dw i angen potel."

"Sgin i ddim."

"Be?"

"Onest."

"Wedi ei wario yn y blydi clwb gwyddbwyll na, siŵr gen i."

Ar hynny sgrialodd Aled i fyny'r grisiau a gadael ei fam yng nghwmni'r botel fodca. Wedi'r cyfan roedd honno yn well cwmni gan ei fam na fo.



Aeth i mewn i'w ystafell gan lusgo'i draed dros y carped carpiog a'i liwiau wedi pylu. Eisteddodd ar y llawr caled, blin. Roedd ei fam fel cwmwl drosto. Pa hawl oedd ganddi hi na neb arall i wneud hwyl am ei ben a barnu'r unig beth a ddeuai ag unrhyw lygedyn o hapusrwydd i'w fywyd oeraidd, unig. Heb wyddbwyll doedd ganddo ddim.

Linda Lysh. Dyna alwai pawb hi. Mae'n rhaid mai fel'na roedd hi am fod. Doedd dim pwrpas i'r meddyg roi tabledi iselder meddwl iddi. Roedd y botel yn dal yn llawn, pob un bilsen yn glyd yn ei chynefin cartrefol. Efallai y gallai pethau fod yn wahanol pe bai hi yn fodlon trio, ond eto sut gallai pethau newid a hithau yn mynnu cyfnewid rhyw am fodca?

Y tabledi! Pam nad oedd wedi meddwl am hyn yn gynt? "*Happy pills*." Dyna oedd pobl yn eu galw. Efallai y byddent yn fodd i ddod â hapusrwydd i'w fywyd di-werth. Mor braf fyddai cael dianc ac anghofio. Anghofio pawb a phopeth. Am byth? Efallai wir. Cerddodd ar hyd y landing ac i'r ystafell molchi. Llifodd arogl sur sigarennau a phersawr rhad i'w ffroenau.

Oedodd ac edrychodd o'i gwmpas. Roedd dillad budron fel carped aflan ar y llawr. Dechreuodd ei lygaid losgi. Safodd yn llonydd a'i lygaid yn syllu yn syth o'i flaen. Gwelodd ei wyneb gwelw yn y drych. Doedd dim i'w weld yn ei lygaid. Roedd fel petai yn syllu'n syth trwyddo fo ei hun. Cododd ei fraich yn fecanyddol fel un mewn breuddwyd a gafael yn dynn yn nrws y cwpwrdd. Diflannodd ei adlewyrchiad a dyna lle'r oedd y botel yn sbecian arno, yn ei herian i gymryd y cam nesaf. Ymestynnodd ei law fel crafanc fawr, cipiodd y botel a throdd ar wib yn ôl i'w ystafell. Yn ofalus caeodd y drws y tu ôl iddo a'i gloi yn gadarn. Yr unig ffordd y gallai neb ddod i mewn oedd trwy ddefnyddio deinameit.

Aeth yn araf i eistedd ar ei wely a chaeodd ei lygaid. Clywodd sŵn clecian y poteli gwag oddi tano. Cwpanodd ei ddwylo dros ei glustiau fel tarian i'w amddiffyn rhag realiti bywyd.

Ymhen tipyn estynnodd am y botel a'i hagor. Tasgodd y tabledi ar gledr ei law. Dilynodd llygaid Aled nhw'n disgyn fel rhaeadr amryliw i blymbwll a'u sibrwd tawel yn hudolus. Yn ei law arall roedd ganddo lasiad o ddŵr.

Wedi ymestyn yn ôl ar ei wely craffodd ar y nenfwd trwy haenau tew ei sbectol pot jam. Yna caeodd ei lygaid siocled ar batrymau'r tamprwydd uwchben. Clywodd sŵn y cloc. Tic tic toc, tic tic toc. Roedd yn arnofio mewn môr cynnes braf, ei fam a'i dad yn chwerthin yn hapus a'r marchogion wedi cau amdano i'w ddiogelu. Y Gwyn enillodd. Disgynnodd Y Du yn ôl i'r cefndir fel llwynog yn cilio i'w ffau ...

Iona Speake

TASG

Roedd y stori fer 'Dianc' yn rhan o waith cwrs TGAU Cymraeg disgybl ym mlwyddyn 11. Ar ôl ei darllen atebwch y cwestiynau canlynol:

1 Pa wybodaeth rydych chi yn ei chael am Aled Lloyd? Soniwch am:

Ei ymddangosiad Mae ganddo lygaid lliw siocled brown ac mae o yn gwisgo spectol efo gwydrau pot jam. Mae ôn un chwyslyd pan o dan bwysau ac mae ganddo farc coch ar ei wyneb.

Ei deulu Mae ei fam yn gaeth i alcohol ac yn gwerthu ei churff i gael arian i brynu diod. Mae'n beio ei mab fod ei gŵr wedi gadael. Mae gan ei dad gywilydd ohono ac mae'n gwrthod credu mai Aled yw ei fab.

Sut mae'n cyd-dynnu â phobl eraill Mae'n cael ei falio gan ei gyfoedion. Mae'n fachgen unig achos hyn. Mae ei fam yn ei gamdrin ac mae'n siom i'w dad. Mae'n cael ei gamdrin yn eriol a chorfforol.

Ei ddiddordebau Mae gwyddbwyll yn bwysig iawn iddo ac yn myned yn flin pan mae ei fam yn ei feirniadu. Gwyddbwyll ydi'r unig beth sy'n ei wneud yn hapus.

Ei deimladau Mae ôn teimlo balchder pam mae o'n ennill y gêm gwyddbwyll. Wedyn fe ddaeth yr unigrwydd. Roedd yn nerfus ac ofnus o'r bwlis wrth iddynt gau amdano. Cafodd Siom o weld dyn yn gadael ty ei fam ac yn erbyn diwedd y stori mae'n isel iawn ei ysbryd

STORI'R TÂP

2 Ysgrifennwch fraslun o BLOT y stori mewn pwyntiau bwled.



- Aled yn ennill y gystadleuaeth wyddbwyll
- Coel ei fwlio gan ei gyfoedion
- gwold clyn yr dad o dŷ ei fam
- mae'n ~~yr~~ wedi mynd beio Aled am fod y tad
- Clap gan ei fam
- ei fam ddim yn cymryd tabledi iselder
- Coel ei demptio i gymryd tabledi y fam
- Cymryd tabledi y fam a lladd ei hun

3 Eglurwch pam mae'r awdur wedi dewis y teitl 'Dianc'.

Yr unig ffordd ~~y~~ gall Aled gael gwared ôi unigrwydd yw trwy 'ddianc'. Does dim ffordd ymlan iddo ar wahan i ladd ei hun drwy gymryd tabledi ei fam - dyma yw 'Dianc'

4 Mae'r paragraff cyntaf yn dal sylw'r darllenydd ar unwaith. Eglurwch sut mae'n gwneud hynny gan drafod:

Y darlun o'r bwrdd gwyddbwyll

Mae'r awdur yn defnyddio trosiadau ac yn troi y darnau i fod yn bethau gwahanol.
Y frwydr yw'r bwrdd a'r gwrthwynebydd yw'r gelyn. Y ~~ff~~ fyddin yw'r darnau chwarae

Yr ansoddeiriau

Ansoddeiriau negyddol sydd yma - bleidiog, unig, a llethol. Mae nhw gyd yn edrych ar ochr drwg bywyd fel bywyd negyddol Aled

Y cymariaethau/ cyffelybiaethau

Mae 'stiff fel procer tân' yn dangos bod y darnau yn fleidiog ar ôl yr ymladd. Mae'r 'disgynodd... fel llwyaid yn cilio i'r fflam...' yn golygu bod nhw yn siomedig ac eisiau diarc i rywle saff i gladio

Hyd y brawddegau

Mae'r brawddegau byr yn rhoi cyflymder i'r paragraff. Mae'n adeiladu tensiwn ac yn ein cadw ni ar bigau ein traed

5 Mae'r paragraff clo wedi cael ei gynllunio'n dda iawn oherwydd mae'n cyfeirio at rannau eraill o'r stori. Dywedwch beth ydynt ac eglurwch pam maent yn effeithiol.

i) 'y gwyn eilliad' - hapusrwydd ar y dechrau ar diwedd

ii) 'llwyaid ar y dechrau ac yna ei gyfoedion'.

iii) 'machog' mae'r machog yn ennill ar y dechrau ac yn anddiffyn ar y diwedd

Yr oedd Kate Roberts (13 Chwefror 1891 - 4 Ebrill 1985) yn llenor enwog yn y Gymraeg. Fe'i ganed ym mhentref Rhosgadfan, yn yr hen Sir Gaernarfon(Gwynedd) a bu farw yn Ninbych. Gelwir Kate Roberts yn "Frenhines y storifer". Ganed Kate Roberts yn y bwthyn teuluol Cae'r Gors, yn Rhosgadfan ar lethrau Moel Tryfan. Roedd ei thad yn chwarelwr. Yn ddiweddarach byddai'r bywyd yng Nghae'r Gors a'r pentref yn gefndir hollbwysig yn ei gwaith llenyddol cynnar. Mae ei chyfrol hunangofiannol *Y Lôn Wen* yn bortread cofiadwy o'r ardal yn y cyfnod hwnnw. Mae bwthyn Cae'r Gors wedi'i atgyweirio a'i droi'n amgueddfa i'r awdures, a hynny ar ôl brwydr hir iawn i gael yr arian i wneud hynny.

Astudiodd Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru Bangor. Bu'n athrawes yn Ystalyfera, de Cymru am gyfnod.[1]

Gyda'i gŵr, Morris Williams, roedd hi'n rhedeg Gwasg Gee yn Ninbych. Bu ei gŵr farw ym 1946, a bu'n rhedeg Gwasg Gee am 10 mlynedd ar ei phen ei hun.

Yn ei blynyddoedd cynnar fel llenor ysgrifennai nofelau a storïau byrion am dlodi a chaledi ardal y chwareli yng ngogledd Cymru. Yn ddiweddarach, ar ôl symud i Ddinbych a phriodi, fe wnaeth droi at ysgrifennu nofelau a straeon mwy seicolegol gydag unigrwydd yn thema amlwg ynddynt. Cyfieithwyd rhai o'u gweithiau i'r Saesneg ac i ieithoedd eraill.





Geni	*Kate Roberts 13 Chwefror 1891 Rhosgadfan, Sir Gaernarfon, Cymru*
Marw	*4 Ebrill, 1985 Dinbych*
Gwaith	*Llenor*
Cenedligrwydd	*Cymraes*
Addysg	*Ysgol Dr Williams,Dolgellau.*
Math o lenyddiaeth	*Nofelau, straeon byrion*
Gwaith nodedig	*Traed Mewn Cyffion, O Gors y Bryniau, Te yn y Grug*
Priod	*Morris Williams*
Dylanwad	*Dic Tryfan*



Kate Roberts
1891 – 1985

Dechreuodd ysgrifennu ar ôl i un brawd gael ei ladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a brawd arall yn colli ei iechyd yn yr un rhyfel. Dywedodd ei bod yn "gorfod sgwennu neu fygu". Cafodd Kate Roberts ei geni a'i magu yng nghanol ardal y chwareli yn Sir Gaernarfon. Roedd ganddi ddawn anghyffredin i sylwi ar yr hyn oedd o'i chwmpas ym mhentref Rhosgadfan. Roedd hi wedi cael addysg gan Syr John Morris Jones a Syr Ifor Williams yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor.

Bu'n athrawes Gymraeg yn Ystalyfera ac Aberdâr, ond wedi iddi briodi Morris T Williams ym 1928, prynodd hi a'i gŵr Gwasg Gee gan symud i Ddinbych. Wedi i'w gŵr farw ym 1946 rhedodd y busnes ar ei phen ei hun am ddeng mlynedd arall.

Mae ei storïau byrion, a'i nofelau yn weithiau llenyddol pwysig. Ceir cofnod o fywyd fel yr oedd yng nghyfnod prysur y chwareli yn Sir Gaernarfon mewn gweithiau megis "Traed Mewn Cyffion", "Tegwch y Bore", "Y Byw Sy'n Cysgu" a "Te yn y Grug". ***Arwyr Cymru***

Gwaith Kate Roberts

O Gors y Bryniau (1925). Storïau byrion.

Deian a Loli (1927)

Rhigolau Bywyd (1929). Storïau byrion.

Laura Jones (1930). Nofel fer.

Traed Mewn Cyffion (1936). Nofel.

Ffair Gaeaf (1937). Storïau byrion.

Stryd y Glep (1949). Nofel fer.

Y Byw sy'n Cysgu (1956). Nofel.

Te yn y Grug (1959). Storïau byrion.

Y Lôn Wen (1960). Atgofion bore oes.

Tywyll Heno (1962). Nofel.

Hyn o Fyd (1964)

Tegwch y Bore (1967)

Prynu Dol (1969)

Gobaith (1972)

Yr Wylan Deg (1976). Storïau byrion.

Haul a Drycin (1981)

Wicipedia

Ganed Kate Roberts yn Rhosgadfan ar 13 Chwefror 1891. Roedd hi'n ferch i Owen a Catrin Roberts. Kate oedd plentyn cyntaf ail briodas y ddau, ac fe gawsant dri mab arall yn frodyr iddi, Richard, Evan a David.

Roedd Owen ei thad yn chwarelwr a'i mam yn gweithio ar dyddyn y teulu, Cae'r Gors, i geisio cadw dau ben llinyn ynghyd.

Cafodd Kate ei haddysg gynradd yn Ysgol y Cyngor, Rhostryfan, cyn symud ymlaen i Ysgol Sir Caernarfon wedi iddi ennill ysgoloriaeth. Astudiodd y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor rhwng 1910 a 1913 gan raddio gydag anrhydedd a derbyn Tystysgrif Athrawes.

Aeth yn athrawes i Ysgolion Elfennol Dolbadarn, Llanberis a Chonwy ar ôl gadael coleg cyn symud i ddysgu Cymraeg yn Ysgol Sir Ystalyfera yn 1915. Dwy flynedd yn ddiweddarach symudodd i Ysgol Sir y Merched yn Aberdâr lle dysgodd Gymraeg, Hanes a Daearyddiaeth.

Themâu cyson yn ei gwaith yw bywyd a chymdeithas wledig ei phlentyndod. Mae nifer o'i nofelau wedi seilio yn ei hardal enedigol, gyda chymdeithas a ffordd o fyw'r chwareli'n gefndir. Mae'n amlwg iddi ddefnyddio nifer o atgofion ei phlentyndod fel merch i chwarelwr yn ysbrydoliaeth i'w hysgrifennu. Efallai mai ei nofel, 'Traed Mewn Cyffion' yw'r enghraifft furyaf poblogaidd o fywyd yn y cyfnod hwnnw sy'n bodoli yn yr iaith Gymraeg. Yn sicr, mae miloedd o ddisgyblion a myfyrwyr wedi dod i ddysgu am fywyd y cyfnod a chaledi bywyd chwarelwyr drwy ddarllen y nofel hon. Mae Kate Roberts yn portreadu bywyd ei hardal enedigol mewn ffordd unigryw gan gofleidio tafodiaith ac ieithwedd ei hardal frodorol yn ei hysgrifennu i ategu at y darlun hwnnw. Roedd hi hefyd yn hoff o portreadu rôl merch mewn cymdeithas gan gynnwys syniadau am annibyniaeth barn merched a'u pwysigrwydd o fewn yr uned deuluol.

Bu farw Kate Roberts ar 4 Ebrill 1985, yn 94 oed.

www.casgliadywerincymru.co.uk

Ym mis Rhagfyr 1928 priododd Kate Roberts gyda Morris T. Williams a rhoddodd Kate y gorau i ddysgu a bu'r ddau yn byw yn Rhiwbeina yng Nghaerdydd tan 1931, ac yna yn Nhonypandy. Wedi'r cyfnod yma yn y De, dychwelodd Kate a Morris i Ogledd Cymru, gan ymgartrefu yn Ninbych wedi iddynt brynu Gwasg Gee yn 1935.

Tra oedd hi'n byw yn y De, ac ar ôl symud i Ddinbych, cyhoeddodd Kate nifer o gyfrolau, gan gynnwys ei gwaith enwocaf, sef y nofel 'Traed Mewn Cyffion', a gyhoeddwyd ym 1936. Ysgogwyd hi i ysgrifennu gan dristwch teuluol; anafwyd ei brawd, Evan, ym mrwydr y Somme a bu farw ei brawd arall, David, o'i anafiadau mewn ysbyty ym Malta ym 1917. Dywedodd fod ysgrifennu'n therapi iddi; yn ffordd o ymdopi â cholled. Gellir gweld hyn yn glir gan fod ei gwaith wedi rhannu'n ddau gyfnod, y cyntaf wedi iddi golli ei brawd ac yna'r ail ar ôl colli'i mam ym 1944 a'i gŵr Morris ym 1946. Parhaodd i gyhoeddi tan 1981 pan gyhoeddodd ei chyfrol olaf, 'Haul a Drycin'.

Mae Kate Roberts yn un o awduron amlycaf Cymru a'i dawn fel llenor wedi ennill iddi'r teitl, Brenhines Ein Llên.

Ganwyd hi yn Rhosgadfan, yn ferch i Owen Roberts, chwarelwr lleol. Fe gafodd ei haddysg yn lleol ac yn ddiweddarach enillodd radd yn y Gymraeg a thystysgrif dysgu o Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor.

Bu'n dysgu yn Abertawe ac Aberdâr cyn symud i Gaerdydd. Mewn Ysgol Haf a drefnwyd gan Blaid Cymru, cyfarfu Kate â Morris Williams ac fe briododd y ddau ym 1928.

Argraffydd oedd Morris Williams. Gyda'i gilydd, prynodd y ddau Wasg Gee, cwmni argraffu yn Ninbych. Ond bu farw Morris ym 1946 gan adael Kate i redeg Gwasg Gee ar ei phen ei hun am ddeng mlynedd. Roedd hi'n credu'n gryf y dylid cyhoeddi amrywiaeth o lyfrau yn y Gymraeg gyda phwyslais arbennig ar blant ac addysg.

Dechreuodd Kate Roberts ysgrifennu o ddifri ar ôl colli ei brawd yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac yna, ar ôl colli ei gŵr, fe furiodd iddi eto gan gyhoeddi Traed Mewn Cyffion (1936), a wnaed yn ffilm yn ddiweddarach, a Te yn y Grug (1959) - dwy o'i chyfrolau enwocaf. Casgliad o straeon digrif a dwfn am blant ydy Te yn y Grug, yn arbennig am Begw a'i phrofiadau hi o gael ei magu mewn cymdeithas debyg i'r un lle cafodd Kate Roberts ei magu yn Rhosgadfan ar droad y ganrif ddiwethaf. Ymdrech y fam, Jane Gruffydd, i gael dau ben llinyn ynghyd a geir yn Traed Mewn Cyffion gyda'r chwarel yn gefndir i fywyd y teulu.

Fe gyhoeddodd nifer o lyfrau eraill gan gynnwys Stryd y Glep, Y Byw Sy'n Cysgu (1956), Tywyll Heno (1962) a casgliadau o straeon byrion fel Yr Wylan Deg.

Mae rôl y ferch yn y gymdeithas a'i syniadau annibynnol am fywyd a chariad yn thema amlwg yng ngwaith Kate Roberts.

Roedd hi hefyd yn ysgrifennu o safbwynt y plentyn gan weld ei phlentyndod ei hun fel magwraeth ddelfrydol.

Bu farw ar 4 Ebrill 1985.

BBC cymru bywyd

Gwaith Dosbarth

Nawfed o F

Kate Roberts

1 Cafodd Kate Roberts ei geni mewn bwthyn yn Rhosgadfan, Dinbych yn 1981.
Cafodd Kate Roberts ei geni mewn bwthyn yng Nghaernarfon ar 13eg o Chwefror, 1981. Cafodd Kate Roberts ei geni yng Nghae'r Gors, Rhosgadfan, Sir Gaernarfon ar 13eg o Chwefror, 1891. ✓

2 Roedd ei thad yn gweithio yn y pwll glo.
Roedd ei thad yn gweithio yn y chwarel. ✓
Roedd ei thad yn gweithio yn y ffatri wlân.

3 Mae ei llyfrau yn sôn am fywyd yng Nghae'r Gors.
Mae ei llyfrau yn sôn am fywyd yn Rhosgadfan.
Mae ei llyfrau yn sôn am fywyd yng Nghae'r Gors a Rhosgadfan. ✓

4 Mae'r nofel 'Y Lôn Wen' yn rhoi darlun gwych o'r ardal heddiw.
Mae'r stori 'Y Lôn Wen' yn rhoi darlun gwych o'r ardal ers talwm.
Mae'r llyfr 'Y Lôn Wen', sy'n sôn am fywyd Kate Roberts, yn rhoi darlun o'r ardal yn ystod ei bywyd. ✓

5 Aeth Kate Roberts i Goleg Prifysgol Bangor i astudio i fod yn athrawes.
Bu'n athrawes yn Ystalyfera ar ôl astudio'r Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Bangor. ✓
Bu'n athrawes Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Bangor.

6 Bu'n rhedeg Gwasg Gee am 10 mlynedd cyn priodi ei gŵr yn 1946.
Bu'n rhedeg Gwasg Gee gyda'i gŵr tan 1946.
Bu'n rhedeg Gwasg Gee ar ei phen ei hun am 10 mlynedd ar ôl i'w gŵr farw yn 1946. ✓

7 Mae ei nofelau a'i straeon olaf yn sôn am bobl mewn trafferthion.
Mae ei nofelau a'i straeon olaf yn sôn am bobl gyda salwch meddwl.
Mae ei nofelau a'i straeon olaf yn sôn am bobl sydd yn teimlo ar eu pennau eu hunain. ✗

Gwaith Dosbarth

Unfed

Cefndir a Thealu	Addysg a Gyrfa	Anduwes
Roedd hi'n ferch i Owen a Catin Roberts	Enillodd ysgoloriaeth i Ysgol Sir Caernarfon	Ei gwaith enwoca yw 'Traed mewn Cyffion'
Brodyr - Richard, Evan a David	Roedd yn Athrawes yn Dolbadarn, Llanberis a Llanrwst	Roedd yn ei y sgwennu oherwydd be cafodd Evan i'w anafu yn y Somme yn ba farw ei brawd
Roedd ei fam yn gweithio ar clydyn y tŷ unig.	Ysgol Gynradd - Ysgol Y Cyngor	
Priodi Morris T Williams yn mis Mehefin 1928	Cafodd Tystysgrif athrawes yn 1913	David yn ysbyty yn Malta yn 191
~~Yn mis 1931~~	Yn 1928 rhoi gorsedd i'w gwaith ac mynd i fyw yn Rhiwbrinian yng Nghaerdydd tan 1931	Roedd dau cyfnod yn ysgrifennu yn ei bywyd
bu farw ei fam yn 1944		Ei llyfr daf odd 'Haul a Dycin' 1980
Roedd y gwr yn athrawes hefyd ac roedd wedi ei cyfaifod yn Ysgol yr Haf a drefnwyd Plaid Cymru.	Prynu gwesty yn 1935	Ei ~~enw~~ enw i Robol Cymru yn Brenhines Ein Llên
	Dysgodd yn Ysgol Sir y Merched yn Aberdar lle dysgodd gymraeg, hanes a Dewryddiaeth Trefnusiaeth	Roedd hi'n hoff o ysgrifennu am rôl dynes yn cymdeithas

Dewi

Kate Roberts

Cafodd Kate Roberts ei geni yng Nghae'r Gors, Rhosgadfan , Sir Gaernarfon ar y 13eg o Chwefror, 1891. Roedd hi'n ferch i Owen ac Catrin Roberts ac roedd ganddi dri brodyr , Richard , Evan a David.

Cafodd Evan, ei brawd, ei anafu ym mrwydr y Somme yn yr Rhyfel Byd Cyntaf gyda David yn marw gyda salwch yn ysbyty yn Malta yn 1917. ~~Ac~~ O herwydd y tristwch yma dywedodd ei fod yn 'gorfod sgwennu neu fygu' i gael dros y tristwch.

Roedd ei rhieni yn cael ei incwm gan fod ei thad yn chwarelwr ac ei fam yn gweithio ar dyddyn y teulu. Yn ei bywyd addysgol ,dechreuodd yn Ysgol y Cyngor ac yno yn Ysgol Uwchradd Dr. Williams ac yn ei amser yno curodd ysgoloriaeth i Ysgol Sir Gaernarfon.

Ar ôl cael addysg yno aeth i'w Brif Ysgol Bangor ac yno cafodd ei dysgu gan Syr John Morris ac Syr Ifor Williams. Gyda ei gradd o'r Brif Ysgol fel athrawes yn 1913, cafodd swydd dros y blynyddoedd yn Dolbadarn, Llanberis, Ystalyfera ac Aberdâr ac hefyd yn Ysgol Sir y Merched yn Aberdar lle dysgodd Cymraeg,Hanes a Daearyddiaeth.

Yn 1928,priododd Morris T Williams ar ôl cyfarfod yn yr Ysgol yr Haf a drefnwyd gan Plaid Cymru ac rhoddodd ~~gorau~~ y ddau gwaith fel athro a athrawes ac mynd i fyw i Rhiwbeiniau yng Nghaerdydd tan 1931.

Yn 1935 rhoddodd gorau i fod yn athrawes ac yna ~~yn~~ prynodd Gwasg Gee gyda ei gŵr ac oherwydd hyn symydodd i Sir Dinbych.

Yn y busnes argraffu bu'n hapus iawn yno ~~gyda ei gwr~~ tan yn 1946 bu farw ei gŵr yn gadael y busnes iddi hi. Ar ôl hyn bu'n anodd iddi rhedeg y bysnes ac yn 1956 ar ol 10 blynedd yn rhedeg y argraffdy ar ben ei hun ,bu farw.

Gwybodaeth Ychwanegol

Fel yr ydych yn gwybod ysgrifennydd oedd Kate Roberts ac roedd ei llyfrau yn sylwi yn fanwl ar ardal Rhosgadfran. Mae'r llyfr 'Tegwch yn y Bore' a 'Y Byw sy'n Cysgu' yn son am ardal brysur y chwareli.

Ei llyfr olaf bu greu Kate Roberts oedd 'Haul a Drycin' yn 1981. Gwaith enwocaf Kate Roberts yw 'Traed mewn Cyffion'.

Yn ei bywyd roedd yna dau cyfnod ysgrifennu, un ar ôl colli ei brodyr ac yr ail ar ôl bu farw ei fam yn 1944.

Roedd hi'n hoff o ysgrifennu am rol dynes yn y cymdeithas. Ei enw i pobol Cymru yw Brenhines Ein Llên.

Yn un o cyfweliadau cafodd Kate yn ei bywyd,cafodd gofyn cwestiwn 'Sut mae creu stori?'.Atebodd Kate gan dweud ei fod yn rhywbeth tebyg i fywyd, maent yn digwydd yn lle arbennig ,amser arbennig ac digwyddiant arbennig.

Bu'n cario ymlaen yn dweud ei fod mae rhywbeth allan o'r cyffredin yn digwydd ac mae'r awdur yn dweud rhywbeth am y byd ac gwirioni am y byd fel plentyn bach ar nadolig.

Yng ngolwg Kate Roberts roedd hi'n gweld y bywyd yn rhu drist sydd yn creu hi eisiau dianc, ei fordd hi o dianc oedd

ysgrifennu. Yn ei bywyd ysgrifennu roedd hi'n ysgrifennu am y byd fel yr oedd yn eisiau gweld ac yn cael gwared o'r dristwch.

Un o'r pethau diwethaf dewedodd Kate Roberts yn yr cyfweliad oedd mae creu stori yn fel cymeryd blawd,menyn a llefrith a ei uno ac yn y diwedd creu torth ac y torth yw y stori diwedd.

Dyma ei llyfrau adnabyddus

Cofiwch ysgrifennu mewn brawddegau!

- Deian a Loli
- Rhigolau Bywyd
- Traed mewn Cyffion
- Stryd y Glep
- Tegwch y Bore
- Y Lôn Wen
- Hyn o Fyd
- Gobaith
- Haul a Drycin
- O Gors y Bryniau
- Laura Jones
- Ffair Gaeaf
- Y Byw sy'n Cysgu
- Te yn y Grug
- Tywyll Heno
- Prynu Dol
- Yr Wylan Deg

Roedd wedi darllen amryw o dethau ar ysgrifennu gwaith y dang hon a wedi cywain a chrynhoi ysgrifeddau bwtinau allan yn ogyfer iaith.

TASG

Darllenwch yr hysbyseb hon a oedd i'w gweld mewn ffenestr siop.

YN EISIAU

Person i weithio yn y siop am dair awr a hanner bob nos, o 4.00 – 7.30 yr hwyr. Mae'n rhaid eich bod yn 15 oed neu'n hŷn.

Cyfrifoldebau:

- gweithio'r til;
- rhoi nwyddau ar silffoedd;
- archebu papurau newydd;
- tacluso a glanhau.

Mae eisiau rhywun sydd yn dda gyda phobl ac sydd yn medru trin arian yn effeithiol. Byddai sgiliau cyfrifiadur da o fantais a'r gallu i siarad gyda chwsmeriaid yn y Gymraeg.

Tâl i'w drafod
Am fwy o fanylion ffoniwch:
07775 643629

Dyddiad cau: 7fed Tachwedd

Cyflogi plant sy'n iau nag oed gadael ysgol (Cymru a Lloegr)

Ni chaniateir i unrhyw un sy'n iau nag oed gadael ysgol i weithio mewn gwaith heblaw am waith ysgafn. Ni chewch chi wneud gwaith sy'n debygol o fod yn niweidiol i'ch diogelwch, iechyd na'ch datblygiad, neu waith a fydd yn effeithio ar eich presenoldeb yn yr ysgol neu eich gallu i gymryd rhan mewn profiad gwaith. Ni chewch weithio:

- mewn ffatri na gwaith adeiladu;
- mewn trafnidiaeth;
- mewn pwll glo;
- ar long fasnach gofrestredig.

Efallai hefyd y bydd gan yr awdurdod lleol ble yr ydych chi'n byw rai rheolau ychwanegol, sef deddfau lleol, ynghylch cyflogi plant a phobl ifanc yn eich ardal chi. Dylech holi eich awdurdod lleol os ydych am ddarganfod beth yw'r rhain. Rhaid i ddeddfau lleol sy'n awdurdodi plant a phobl ifanc i weithio mewn masnachu ar y stryd ddweud pa ddyddiau, pa oriau, a'r mannau lle y gallant weithio.

Mae angen i gyflogwyr sydd am gyflogi plant neu bobl ifanc sydd dan oed gadael ysgol gael trwydded gan yr awdurdod lleol. Rhaid i'r cyflogwr ac un o'ch rhieni arwyddo'r drwydded. Mae yna rai rheolau ychwanegol ynghylch cyflogi plant dan 14 oed. Os ydych yn iau na 14, ni chewch weithio o gwbl heblaw am y mathau canlynol o waith:

- I gymryd rhan mewn chwaraeon, hysbysebion, modelu, dramâu, ffilmiau, teledu neu adloniant arall. Rhaid i'r cyflogwr wneud cais am drwydded oddi wrth yr awdurdod lleol.
- I wneud mân dasgau ar gyfer rhiant, perthynas neu gymydog;
- I warchod plant (mae rheolau penodol ar gyfer hyn).

Plant a phobl ifanc dan oed gadael ysgol (Cymru a Lloegr)

Mae yna gyfyngiadau llym ar yr oriau y mae plant a phobl ifanc dan oed gadael ysgol yn cael eu gweithio. Ni chewch weithio:

- yn ystod oriau ysgol neu ar ddiwrnod ysgol;
- am fwy na dwy awr ar unrhyw ddiwrnod ysgol neu fwy na 12 awr mewn unrhyw wythnos lle mae gofyn i chi fynychu'r ysgol;
- am fwy na dwy awr ar Ddydd Sul;
- am fwy nag wyth awr (pump awr os ydych yn iau na 15 oed) ar unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol nac yn ddydd Sul;
- cyn 7yb neu wedi 7yh;
- am fwy na 35 awr (25 os ydych yn iau na 15 oed) mewn unrhyw wythnos lle nad oes gofyn i chi fynychu'r ysgol;
- am fwy na phedair awr ar unrhyw ddiwrnod heb egwyl o un awr;
- ar unrhyw adeg, os yn ystod y 12 mis yn cychwyn ar Ionawr y 1af, bydd gweithio wedi golygu nad ydych wedi cael (neu na fyddech chi wedi cael) dwy wythnos o wyliau yn olynol o'r ysgol.

Pa waith...?

1 ***Pa fath o waith chaiff pobl ifanc dan oed gadael ysgol mo'i wneud?***
Ni chaiff pobl ifanc dan oed adael yr ysgol i weithio mewn ffatri na gwaith adeiladu, mewn trafnidiaeth, mewn pwll glo, nac ar long fasnach gofrestredig.

2 ***Beth sydd ei angen ar gyflogwr sydd eisiau cyflogi pobl ifanc dan oed gadael ysgol?***
Mae angen i gyflogwyr sydd am gyflogi plant neu bobl ifanc sydd dan oed gadael ysgol gael trwydded gan yr awdurdod lleol. Rhaid i'r cyflogwr ac un o'r rhieni arwyddo'r drwydded. Bydd rhaid I'r cyflogwr wneud cais am drwydded oddi wrth yr awdurdod lleol pe bai'r math o waith yn cynnwys chwaraeon, hysbysebion, modelu, dramâu, ffilmiau, teledu neu adloniant.

3 ***Nodwch ddau fath o waith y mae plant dan 14 oed yn cael ei wneud?***
Y ddau fath o waith y mae plant dan 14 oed yn cael ei wneud yw mân dasgau ar gyfer rhiant neu warchod plant.

4 ***Sawl awr fyddech chi'n cael gweithio ar ddydd Sul?***
Cewch weithio am ddwy awr yn unig ar ddydd Sul.

5 ***Sawl awr fyddech chi'n cael gweithio yn ystod gwyliau ysgol?***
Cewch weithio am 35 awr yn ystod gwyliau'r haf a dim ond 25 awr os ydych yn iau na 15 oed.

6 ***Sawl awr ydych chi'n cael gweithio heb egwyl?***
Cewch weithio am bedair awr gydag egwyl o awr.

7 ***Edrychwch ar yr hysbyseb yn ffenestr y siop. Ydy'r hysbyseb yn cadw at y gyfraith neu beidio? Eglurwch eich ateb.***
Mae'r math o waith a chyfrifoldebau'r swydd yn addas, ac yn gyfreithlon. Ni chewch weithio am fwy na dwy awr ar unrhyw ddiwrnod ysgol, neu fwy na 12 awr mewn unrhyw wythnos lle mae gofyn i chi fynychu'r ysgol. Oherwydd hyn, yn amlwg mae gofynion y swydd yn torri neu yn erbyn y gyfraith.

8 ***Eglurwch pa mor effeithiol ydy'r hysbyseb o ran diwyg ac arddull.***
Mae sawl nodwedd arddull a chyflwyniad yn yr hysbyseb sy'n effeithiol. Un nodwedd arddull yw'r rhestru,

'...chwaraeon, hybysebion, modelu...'

Mae'r rhestru'n effeithiol oherwydd mae'n nodi'n glir yr union waith sy'n dderbyniol os ydych yn iau na 14.

Mae hefyd defnydd o bwyntiau bwled,

- '...mewn ffatri...
- Mewn trafnidiaeth...
- Mewn pwll glo...'

Lofia nodi'r pwyntiau bwled!

Mae'r pwyntiau bwled yn effeithiol oherwydd eu bod yn fyr ac yn syth at y pwynt, sef yr union bethau ni chaniateir i unrhyw un sy'n iau nag oed gadael ysgol ei wneud o ran gwaith.

O ran diwyg yr hysbyseb, mae defnydd o bennawd ,
'...Yn eisiau...'
Mae'r pennawd mewn blwch yn fawr ac mewn print trwm er mwyn denu llygaid y cyhoedd. Yn syth fel darllenydd mae'n amlwg eu bod yn chwilio am weithiwr ac felly, hysbyseb a geir o ran ffurf y darn.

Llongyfarchiadau i ddangos dealltwriaeth lawn o'r dwy dasgen o ran cynnwys ac o ran nodweddion arddull a diwyg.

Manteision Gwaith Cartref

Mae'n dysgu plentyn i weithio'n annibynnol.

Mae'n ffordd o addysgu plentyn i gymryd cyfrifoldeb am ei waith ei hun

Mae'n ffordd i ddatblygu sgiliau ac arferion astudio positif a fydd o fudd i ryuwn drwy fywyd.

Mae'n ffordd o alluogi plentyn i gymhwyso sgiliau mewn sefyllfaoedd newydd.

Mae'n annog plentyn i ymchwilio i bynciau yn llawnach nac mae'r amser yn y dosbarth yn ei ganiatâu.

Mae'n gwella meddwl a chof plentyn.

Mae'n ffordd dda o adolygu ar gyfer profion.

Mae'n ffordd i rieni ddod i wybod am yr hyn mae eu plentyn yn ei wneud yn y dosbarth.

Mae'n ffordd o annog plentyn i ddefnyddio amser yn ddoeth.

Mae'n dysgu plentyn i ddefnyddio ffynonellau megis llyfrgelloedd, deunydd cyfeirio a safweoedd cyfrifiadur i ddod o hyd i wybodaeth.

Mae'n galluogi plentyn i arfarnu ac ymarfer yr hyn addysgwyd yn y dosbrth.

Mae'n ffordd i baratoi plentyn ar gyfer yr hyn fydd yn cael ei wneud yn y dosbarth y diwrnod wedyn.

Gwaith da dadleuon yn dda iawn fan hyn.

Anfanteision Gwaith Cartref

Blaenoriaeth effeithiol

Mae'n ormod i'w ddisgwyl ar ôl bod yn yr ysgol drwy'r dydd.

Mae'n cyfygnu amser hamdden plentyn.

Mae'n achosi tensiwn adref.

Mae'n eich gwneud yn flin yn y bore ar ôl peidio cael disgon o gwsg y noson cynt.

Mae'n rhoi pwysau ar rywun i gyrraedd terfynau amser.

Mae'n achosi drwgdeimlad rhwng disgybl ac athro.

Mae'n ail adrodd gwaith y dosbarth.

Mae'n cymryd llawer o amser i'w gwblhau.

Mae'n gwnued i ddisgyblion aros ar eu traed yn hwyr.

Does dim lle tawel i weithio adref.

Does neb ar gael i'ch helpu.

Yn aml mae angen defnyddio cyfrifiadaur a does gan pawb ddim cyfrifiadur

Gwaith Dosbarth

Y Cyntaf o Hydref

Ysgrifennwch lythyr at gyfchwaer pobl ifanc yn mynegi barn ar y testun 'Mae gormod o bwysau ar bobl ifanc heddiw'.

Llythyr Ffurfiol

Meini Prawf Llwyddiant

1. Gosod y llythyr yn gywir – dau gyfeiriad ✓
2. Iairh ffurfiol
3. Iaith perswadio
4. Ystyried y ddwy ochr
5. Clo cryf

Ynys Môn

3ydd o Hydref, 2014

Llangefni,
Ynys Môn

Annwyl Olygydd,

Rwyf yn ysgrifennu atoch ~~heddiw~~ ~~yn~~ i bwyslleisio fod gormod o bwysau ar bobl ifanc heddiw. Rwyf wedi darganfod fod llawer o'r bwysau yn dod o'r ysgol ac yn benodol y

gwaith cartref sydd yn dod ohono.

Rwyf yn teimlo fod yn ormod i'w ddisgwyl inni wneud gwaith cartref ar ôl bod yn yr ysgol drwy'r dydd. Mae hyn yn arwain at fod yn flinedig a fydd, yn y pendraw yn arwain at salwch. Mae bod yn flinedig heffyd yn gallu arwain at teimlo'n flin ac yn gallu gwneud hi'n anodd pan rydych eisiau cadw ffrindiau ac ymddygiad yn yr ysgol. Nid hyn yw'r unig reswm pam mae'n ormod i ddisgwyl oherwydd mae'n creu tensiwn yn y teulu pan rydym eisiau mynd allan a cael hwyl ac nid ydym yn gallu mynd oherwydd gymaint o gwaith cartref i'w gwblhau. Mae hyn yn gallu arwain at iselder a salwch. Mae diffyg amser iach a fydd yn arwain at salwch eto. Pan mae rhywun yn sâl, nid yw yn gallu mynd i'r ysgol felly mae hyn yn arwain at raddau isel yn y pynciau a chanlyniadau gwael mewn arholiadau. Mae diffyg amser yma oherwydd gwaith cartref yn arwain at beidio cael yr un cyfleoeddd a cymhwysiadau fel chwaraeon ac natur a planta eraill. Mae hefyd yn gallu arwain ar beidio cael digon o amser iach a fydd yn y pendraw yn arwain at salwch. Pan mae rhywun yn sâl, nid yw yn gallu mynd i'r ysgol felly mae hyn yn arwain at raddau isel yn y pynciau a chanlyniadau gwael mewn arholiadau.

Mae hefyd yn cyfyngu amser hamdd plentyn. Mae'n dwyn amser plant i gael gorffwys. He orffwys mae plant yn flinedig ac mae hyn yn

gallu achosi graddau arholiadau ostwng oherwydd absenoldeb oherwydd salwch. Mae'n creu hi'n anodd i'r corff oherwydd diffyg gorffwys, yn arbennig gorffwys yr ymennydd. Mewn cahlysuron arbennig mae'n achosi salwch oherwydd nid yw plant yn gallu cael cwsg iach a digon o ymarfer corff. Mae'r diffyg amser hamdden yma yn gallu effeithio ar y teulu oherwydd nid yw'r teuluoedd yn gallu gwneud pethau teuluol felly mae'r plentyn /disgybl yn colli allan ar gyfleoedd plentynedol. Mae hyn yn arwain at densiwn.

Er yr holl bwyntiau sy'n dangos fod gwaith cartref yn rhoi gormod o bwysau ar ~~plentyn~~ blant, mae yna rhai manteision i'r ddadl yma.

Mae'n dysgu plentyn i weithio'n annibynnol. Mae hyn yn arwain at blant yn dysgu i beidio cael yr ateb i gyd yn y dosbarth ac fod yn gorfod gweithio darganfod pethau newydd. Mae'r gwaith ~~cartref~~ cartref hefyd yn helpu athrawon yydd gwybod os ydy'r plentyn yn deall y gwaith ac i wybod be maent angen dysgu mwy ohono. Mae'r ddealltwriaeth yma yn arwain at siddau gwella yn y pynau a chanlyniadau da mewn arholiadau. Mae'r gwaith annibynnol yn dysgu plentyn mae bywyd go iawn allan yno ac ~~yn~~ ~~dysgu~~ nid yw'n gallu cael y ateb ac yn dysgu i ddynt gweithio am ei ateb. Mae hyn yn arwain at blentyn dealus ac yn y diwedd pobl mwy cyflawn. Mae hefyd yn dangos plentyn i ddefnyddio'r ymennydd.

Mae'n ffordd hefyd o addysgu plentyn i deall bod rhaid iddo weithio am ei raddau. Mae hefyd yn ffordd o addysgu plentyn i gymry

cyfrifoldeb am ei waith ei hun. Mae hyn hefyd yn dysgu'r plentyn i fod yn annibynnol ac i weithio'n galed ac yn gwneud y gwaith yn mwy heriol. Mae hyn hefyd yn dysgu plentyn i fod yn napus. Mewn safyllfaeedd newydd a anisgwyl ac yn gwella meddwl a chof plentyn. Mae'n ffordde o ddysgu'r plentyn (i) fod yn bywyd yn galed ac nid yw yn gallu manteisio ar pobl eraill drwy ei fywyd. Mae'r agwedd yma at waith yn gallu newid plentyn am byth oherwydd mae'r gwaith yr ydym yn ei cwblhau yn cadi graddau a fan bydd yn cyraedd ~~graddau~~ TGAU yn gadael iddi gael mwyd i gdeg neu brifysgol ac yn y diwedd i gael eich hoff swydd a

T cael bywyd hapus.

I ddarfynu, byddwn eich yn ddiolchgar petaech yn cyhoeddi fy llythyr yn ~~y~~ sylchgrawn nesaf.

Yr eiddoch yn gywir

Rwyt wedi llwyddo i gynnal dadleuon drwy defnyddio prynhian. Mae gen ti gyfleoedd effeithiol a mynegiant a dysgrifiaeth gywir fel rhaid.

(T). Lynnig tystiolaeth i gefnogi barn
• Brysia'r treigiad eleos ar ôl (a).

Gwaith Dosbarth

Ugeinfed o Ionawr

Y Cenhedloedd Unedig

Siarter y Plentyn

Mae gan bob plentyn o'i eni hyd at 18 oed hawl i'r canlynol:

bywyd
enw a chenedligrwydd
cael dweud ei ddweud am y pethau sy'n effeithio arno
ymarfer ei grefydd
cael syniadau a mynegi ei farn
cyfarfod â phlant eraill
cael yr wybodaeth sydd arno ei heisiau
cael gofal, addysg a hyfforddiant arbennig os oes angen
cael gofal meddygol
cael digon o fwyd a dŵr glân
cael addysg yn rhad ac am ddim
chwarae
siarad ei iaith ei hun
dysgu a mwynhau ei ddiwylliant ei hun
peidio â chael ei ddefnyddio fel llafur rhad
peidio â chael ei frifo neu ei esgeuluso
peidio â chael ei ddefnyddio fel milwr mewn rhyfel
cael ei warchod rhag perygl
cael gwybod am ei hawliau a'i gyfrifoldebau

Gweithgareddau Ail ac hygoin o Ionawr.

Pyramid Blaenoriaeth

Blaenoriáethu Hawliau Plant Y Cenhedloedd Unedig



PERYGL BYWYD!

Mae plant mor ifanc â 7 oed o Zimbabwe yn peryglu eu bywydau wrth geisio dianc rhag tlodi. Yn ôl ymchwil gan Cronfa Achub y Plant mae'r plant hyn yn cerdded ar eu pen eu hunain trwy dir gelyniaethus er mwyn croesi'r ffin i Dde Affrica.

Yn aml maent wedi colli eu rhieni ac yn gweld De Affrica fel rhywle lle cânt addysg neu waith.

Does gan lawer o'r plant hyn sy'n cyrraedd De Affrica ar eu pen eu hunain ddim prawf o bwy ydynt ac felly ni allant gofrestru am help gan yr awdurdodau. Dim ond un o bob tri o'r rhai a holwyd oedd mewn ysgol ac roedd y rhan fwyaf yn cael eu gorfodi i weithio mewn amgylchiadau peryglus. Roedd rhai yn byw mewn gwersylloedd sgwat a llawer yn gorfod begera am eu bwyd.

Tywyswyr yn twyllo

Bu llawer o gymryd mantais ar y croesi anghyfreithlon dros y ffin. Yno ceir 'tywyswyr' sy'n mynnu tâl gan y plant anffodus am eu helpu i fynd i'r wlad. Mae'r tywyswyr hefyd yn eu curo, yn eu cam-drin ac yn dwyn yr ychydig sydd ganddynt.

Gwlad yr Addewid?

Mae'r gyfraith yn Ne Affrica yn dweud bod yn rhaid i'r wlad ofalu am y plant hyn a'u hamddiffyn, ond oherwydd y niferoedd enfawr sy'n croesi'r ffin o Zimbabwe a gwledydd eraill fel Mozambique, mae'n dasg anoleithiol.

'Mae'r plant yma yn gweld De Affrica fel Gwlad yr Addewid,' meddai Dominic Nutt o Gronfa Achub y Plant, 'ond mae'r peryglon maent yn eu hwynebu wrth deithio milltiroedd ar eu pen eu hunain ac yna wedi cyrraedd De Affrica yn ddychrynllyd. Maent yn dlawd, yn ifanc ac yn ddiniwed ac yn ysglyfaeth hawdd i bobl ddrwg sy'n dal mantais arnynt.'

Yr un hen stori

Un enghraifft o filoedd ydy hon. Mae plant ledled y byd yn dioddef. India ydy'r wlad sydd â'r nifer uchaf o blant yn

marw bob blwyddyn. Rhai rhesymau yw diffyg addysg, diffyg parch at ferched, diffyg bwyd maethlon a dŵr budr.

Er bod llai o blant yn byw yn Sierra Leone, mae cyfartaledd y plant sy'n marw yn uwch nag yn Zimbabwe. Oherwydd blynyddoedd o ymladd does dim digon o ysbytai, doctoriaid na nyrsus yno, ac mae'r dŵr budr yn achosi heintiau.

Nicaragua ydy'r ail wlad dlotaf yn America Ladin ac mae miloedd o blant yn byw ar y stryd yno. Mae'n rhaid iddynt fegera ac maent yn dioddef trais a chamdrin. Mae hyn yn gwneud niwed seicolegol anferth iddynt.

Gobaith

Elusen sy'n gweithio'n galed yn y gwledydd hyn yw Cronfa Achub y Plant. Y bwriad yn Zimbabwe yw adeiladu canolfannau ar hyd y ffin. Yno caiff y plant ofal a chânt eu bwydo. Cânt addysg a byddant yn ddiogel.



	India	Zimbabwe	Sierra Leone	America Ladin
addysg a hyfforddiant	X	X		
gofal meddygol			X	
peidio â chael eu brifo neu eu hesgeuluso	X			X
digon o fwyd a dŵr glân	X	X	X	Dadansoddiad da o'r dam darlun Rwyt wedi ~~dangos~~ deuaeth dda o adam eithaf ig.
cael eu gwarchod rhag perygl		X		

Gwaith Dosbarth

Perygl Bywyd!

Nodwch y ffeithiau a ddysgoch am y llefydd hyn o'r erthygl.

Zimbabwe	India	Sieraa Leone	Americva Ladin
Plant ifanc o 7 oed yn caisio diane i De Africa	Mae'r gwta'r nifer fwyaf o bobl ifanc yn marw	Mae cyfartaledd y plant yn marw yn uwch nag Zimbabwe.	Mae Nicaragua yn gwlad tlotaf America Ladin
Mae'n cerdded trwy tir peryg gelynion	Mae'n cymryd diffyd addysg	Does dim digon o ysbytai i'r nifer o plant sal	Mae miloedd o blant yn byw ar y stryd
Dim ond 1 o pob 7 sydd yn chwedd i cael addysg	Does dim llawer o bobl mathlon ac dim ond chwt bach	Does dim digon o doctoriid a nyrsus yno	Mae'n chaid addysg ffoparn am ei gwaid
Mae'n cael ei gorfodi i weithio mewn amgylchiadau peryglus	Mae gwta diffyg porth ar ferched	Does dim llawer o dwr glan ac maent yn dioddef heintiau	Dioddef a lwgu ac chamdrin
Mae llawer dim yn gallu ei gwlad oherwydd personal fel yr ebola		Maent yn byw yn lle y lle wedd ymladd yna.	Mae llawer wedi cael rewid seicolegol
Mae'n yn gorfod byw am ei hun	Dynna waith sy'n dangos		
Mae'n byw yn sydd wedi cael ei rai eraill peryglus	dy ailn i'r dim mae pawb ac yn		
Mae llawer wedi ei ei chwi.	Edrychwch ymlaen at wed y daig ehangwch gen ti.		

(B) Bwyd
(P) Problemau
(Ll) Lleoliad

Gwaith Ymchwil

Enwau o Chwedl
5 / 5 / 14

Haearn Plant

Yr ystyr y mae hoelion fe wneithon ni gaeyn gyfeirio'n ôl hanes plant yng Nghymru. Mi wneithon ni ennill i bwrs grip gan ddeithau gydag un neu'r pob un. Y rheiyddd cadd ardlysg a hyffordiau i gyfri ardlygol i gwrthod drwg neuyl i esgeuluso a brifo a tyfed a dir gtin. Fe wneithom ni defnyddio strategaeth mwrthnad er mwyn cael cyffla i ennill Syniadau am eth neu Erbyn y diwedd hadd gennyn lawer o Syniadau wedi'u casglu ar gyfer y dag yr oeddem wedi defnyddio llawer o gyfleu trefed a gafyn cwestiynau.

SH

Gwaith Dosbarth — Pumed o Fawrth

Adroddiad yn cymharu hawliau plant Cymru a phlant gwledydd llai ffodus

Mae'n dychryn rhywun i feddwl mai dim ond 1 o pob tri sy'n cael addysg yn Zimbabwe. Mae'n anodd i creu bod plant yn rhoi eu bywyd mewn peryg er mwyn cael addysg. Mae'r sefyllfa yma yn ddychryniad ac mae mwy o wledydd fel India a Sierra Leone gyda yr un sefyllfa ac mae llawer wedi colli eu rhieni a teulu.

Ar y llaw arall mae'r sefyllfa yng Nghymru yn llawer gwell. Mae'n cael mynd i'r ysgol am ddim tan maent yn 18 felly does dim pwysau ar y rhieni yn ariannol. Maent yn ffocus dros ben yn cael addysg mewn amgylchiadau diogel a hwyl. Maent yn cael ei offer ysgol am ddim os ni mae eu rhieni yn gweithio mewn swydd ond maent yn gorfod talu am ei offer ysgrifennu. Mae plant Cymru yn feintiedig iawn yn cael bwyd yn yr ysgol sydd yn dda yw ei rhieni yw mwtlwl fod ei plentyn yn cael bwyd iach a diogel yn yr ysgol. Ystyriwch pa mor lwcus ydyn ni yn cael addysg da i cael bywyd cyfiawn ac yn cael y braint yw cael graddau ar ôl TGAU.

Mae'r sefyllfa gofal meddygol yn Zimbabwe yn frawychus iawn oherwydd mae llawer o blant yn marw pob dydd ac i rai sydd yn ffodus wedi byw, mae llawer ohonynt wedi colli ei rhieni ac teulu ac yn chwilio am fywyd ar y strydoedd.

Mae'n ddychryniad i feddwl bod mae gan India y fwyaf nifer o blant yn marw pob blwyddyn

oherwydd does ddim gan pobtau sylfaenol fel dim digon o ysbytai i'r nifer o blant sâl oherwydd diffyg arian. Mae'n gyrru iâs i lawr cefn rhywun wrth feddwl oherwydd y sefyllfa ddychryniadol mae llawer o blant wedi cael niwed seicolegol. Anodd ydi credu bod y problemau yma yn gallu cael ei ddatrys gan pobtau mor bach fel dŵr glân ac digon o fwyd ffres.

Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn wahanol iawn oherwydd yn y wlad mae'n cael mynd at ei doctoriaid unrhyw adeg ac cael y meddyginiaeth am dim yng Nghymru. Mae'n fraint fod digon o bobl meddygol iw helpu yn eu gwlad ac yn cadw eu pobl yn iach. Ystyriwch pa mor lucus ydynt yn cael triniaeth am ddim ac yr gorau sydd yn llawer iawn yn wahanol i'r pobl llawd yn y gwledydd tramor. Mae'n ffactus dros ben yn cael ambiwlans ac yn cadw ei bobl yn iach ac hefyd mae'r gwasanaethau yma am ddim sydd yn gwahaniaeth iawn i gwledydd tramor.

Mae'r sefyllfa yn Zimbabwe yn frawychus iawn gyda bwyd oherwydd mae'r plant yn y sefyllfa yma yn gorfod begera am eiu bwyd oherwydd rhesymau fel dim arian ac mewn amgylchiadau difrifol mae plant ifanc iawn wedi colli eu rhieni a teula ac ddim yn gwybod beth i'w wneud. Mae'n gwledydd eraill yn sefyllfa yma hefyd oherwydd yn India mae'r plant yn gorfod cael ei gorfodi i yfed dŵr budr ac weithiau does dim dŵr yno felly maen marw o dadhydreiddiad. Mae'n gyrru iâs i lawr cefn rhywun wrth feddwl i'r pobl sydd yn lucus i ffael

dŵr yn garfod yfed dŵr yn llawn o bacteria ac arfiechydon ac hefyd gwestroff dynol. Gwarth o beth yw mewn gwledydd poeth iawn mae ei cnydau yn marw o ddydd i ddydd felly mae plant yn mynd heb fwyd yn aml iawn.

Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn hollol wahanol gyda digon o fwyd pob dydd ac hefyd dŵr glan fres. Ystyriwch pa mor lucus ydynt yn cael dŵr cynnes ac oer yn dod o tap ac ddim yn gorfod treulio oriau yn casglu y dŵr. Mae'n fraint i'w feddwl yng Ngymru ~~[illegible]~~ gyda siopau yn llawn o bwyd o pob math a bwytai hyfryd ac hefyd llefydd bwyd cyflym, mynd fel 'KFC' mae hyn yn gwahanol iawn i sefyllfa yng gwledydd tramor. Er hyn i gyd mae yna pobl yng Ngymru yn llwgu felly mae hyn yn dangos does dim gwlad yn clir o'r sefyllfa yma ond rydym mewn sefyllfa well.

Felly ar ôl edrych ar y ~~gwybodaeth~~ o'r ddwy ochr o'r dadl rydych yn siwr o fod yn deall ~~[illegible]~~ o fod mae Cymru mewn sefyllfa llawer gwell ac ddylem ddal ati i helpu y pobl yn y sefyllfa ddychryniadol yma.

Rwyt wedi denu gerpa ac gwaeroadion sy'n dewis a dymuno diadadeb y dalleryddd. Mae'r gwaith iaith yn addas a gosod y gwaith ac mae'r paragraffau pendant yn rhoi trefn ar gwaith. Da iawn ti.

(T) Ewylliaw iddynt / ydynt;
ei/eu ac ambell
dreiglad

Portread

MRS LEWIS Y BWTSIWR

Gan Glesni Lewis

Cwestiynau enwau

Mrs Lewis y Bwtsiwr yw hi i drigolion pentre glan môr Llan-non – Eluned yw hi i'w ffrindiau, ond mam-gu sy'n byw drws nesa yw hi i mi.

Personoliaeth / darnau o naratif

Dydy mam-gu ddim y person mwya hawdd yn y byd i gytuno â hi, a dweud y gwir hi yw'r person mwya anodd rwy erioed wedi'i chwrdd. Mae hi'n eistedd ddydd ar ôl dydd yn niogelwch ei chadair esmwyth glyd wrth ymyl y ffenest sgleiniog fel brenhines yn gwylio'r byd tu allan yn prysuro heibio. Yn llonydd fel delw gan oedi rhag codi o'i gorsedd rhag ofn iddi golli rhyw ddigwyddiad neu helynt yn y stryd tu allan. Does dim angen mudiadau megis *Neighbourhood Watch* pan mae gennych chi gymdogion busneslyd fel mam-gu yn byw yn y pentre.

Disgrifio llygaid

Mae llygaid gweld-popeth sy'n digwydd gan mam-gu. Mae'r llygaid wedi'u cuddio o dan wydr trwchus sbectol well na'i gilydd, ac mae ffrâm y sbectol lawen, liwgar yn gorwedd yn gyfforddus ar ei thrwyn pigog, busneslyd sy'n edrych fel pig aderyn.

Disgrifio wyneb

Mae ganddi wyneb yn union fel lleuad llawn sy'n goleuo'r tywyllwch. Does dim diwrnod yn mynd heibio heb iddi wneud ei seremoni feunyddiol o roi mwgwd o golur ar ei hwyneb. Dydw i ddim yn cofio gweld mam-gu heb ei mwgwd trwchus o golur erioed. Y peth cynta ar ôl iddi molchi yn y bore mae hi'n mynd ati'n ddyfal i geisio ail-greu ei hieuenctid drwy goluro ei hwyneb. Yn gyntaf, mae'n rhoi trwch o hufen *Ponds* ar ei chroen rhychiog sy erbyn hyn yn edrych fel hen afal sych, crebachlyd. Yna, mae'n tynnu powdwr Rhif 17 o'i bag colur glas, patrymog, ac yn ei blastro ar ei hwyneb yn hael. Wedyn, i orffen, bydd ei dwylo gwyn, gwythiennog fel darn o gaws Stilton yn crynu wrth iddi roi minlliw mor goch â golau traffig ar ei gwefusau tenau di-waed. Mae edrych yn ddeniadol yn hollbwysig i mam-gu.

Disgrifio gwallt

Gan gadw at amserlen ddigyfnewid mae mam-gu'n mynd ar y bws bob dydd Gwener yn rheolaidd. Cyn iddi fynd i'r dre bydd mam-gu wedi mynd drwy seremoni arall wythnosol – sef trin ei gwallt. Mae ganddi wallt cwta, gwyn fel yr eira sy'n glynu'n glòs i'w phen a pherm ynddo i greu tonnau ysgafn fel tonnau mewn to sinc.

Disgrifio corff

Menyw gron yw mam-gu sy'n fy atgoffa o falŵn efo gormod o wynt tu fewn iddo sy bron â ffrwydro unrhyw foment. Mae ei choesau byrdew yn tyfu allan o'i chorff bolgrwn fel dau foncyff coeden fawr. Mae ei breichiau bychan yn glynu wrth ei chorff gan wneud iddi edrych fel tedi bêr twt. Pan fydd hi'n mentro codi o'i heistedd bydd ei chorff yn ysgwyd fel jeli – ond mae hynny i'w ddisgwyl – wedi'r cwbwl mae mam-gu dros ei phedwar ugain mlwydd oed!

Dillad

Mae edrych yn ddeniadol yn hollbwysig i mam-gu. Rhaid iddi wisgo'n urddasol bob amser mewn dillad drud. Rydw i wedi colli cyfrif o sawl gwaith clywais bobl y pentre yn sôn amdani – *Menyw smart. Dyna wisg neis, Luned. Ble gaethoch chi'r clust-dlyse ,na?* – dyna rai o'r sylwadau cyson amrywiol. Gwisgo'n ffansi a galifantio yw hoff ddiddordebau mam-gu – yn union fel plentyn bach didniwed.

Llais / Atgofion / Priodi

Llais tawel sydd gan mam-gu fel arfer, ond mae'r llais yma'n newid (yn union fel ei chymeriad) yn ôl sefyllfaoedd arbennig. Llais siarp fel gwydr toredig sy ganddi pan mae hi mewn tymer. Mae ei chof yn berffaith wrth iddo gofio nôl i ddyddiau ffôl ei phlentyndod – yr hen ardal lle'r oedd hi'n enedigol sef Ystrad Mynach yn Ne Cymru; ei swydd gyntaf fel ysgrifenyddes mewn swyddfa; symud i ardal wledig yng ngorllewin Cymru; ffermio gyda'i theulu ym Methania; cwrdd â fy nhadcu yng Nghross Inn a'i briodi; agor siop gigydd yn Llan-non; genedigaeth ei phlant Eddie, Kerry a Leslie; y boen o golli plentyn ar enedigaeth. Atgofion chwerw a melys mam-gu.

Cyfeirio yn ôl at y dechrau

Gan ei bod wedi byw drws nesa i mi erioed, fedraf i ddim meddwl am fywyd hebddi. Mam-gu, yn ei chadair esmwyth yn cnoi'i hewinedd, ac yn eistedd wrth y ffenest yn busnesu yn nigwyddiadau'r pentref. Mam-gu.

Mrs Lewis y Bwtsiwr yw hi i drigolion pentre glan môr Llan-non – Eluned yw hi i'w ffrindiau, ond mam-gu sy'n byw drws nesa yw hi i mi.

Dydy mam-gu ddim y person mwya hawdd yn y byd i gytuno â hi, a dweud y gwir hi yw'r person mwya anodd rwy erioed wedi'i chwrdd. Mae hi'n eistedd ddydd ar ôl dydd yn niogelwch ei chadair esmwyth glyd wrth ymyl y ffenest sgleiniog fel brenhines yn gwylio'r byd tu allan yn prysuro heibio. Yn llonydd fel delw gan oedi rhag codi o'i gorsedd rhag ofn iddi golli rhyw ddigwyddiad neu helynt yn y stryd tu allan. Does dim angen mudiadau megis *Neighbourhood Watch* pan mae gennych chi gymdogion busneslyd fel mam-gu yn byw yn y pentre.

Mae llygaid gweld-popeth sy'n digwydd gan mam-gu. Mae'r llygaid wedi'u cuddio o dan wydr trwchus sbectol well na'i gilydd, ac mae ffrâm y sbectol lawen, liwgar yn gorwedd yn gyfforddus ar ei thrwyn pigog, busneslyd sy'n edrych fel pig aderyn.

Mae ganddi wyneb yn union fel lleuad llawn sy'n goleuo'r tywyllwch. Does dim diwrnod yn mynd heibio heb iddi wneud ei seremoni feunyddiol o roi mwgwd o golur ar ei hwyneb. Dydw i ddim yn cofio gweld mam-gu heb ei mwgwd trwchus o golur erioed. Y peth cynta ar ôl iddi molchi yn y bore mae hi'n mynd ati'n ddyfal i geisio ail-greu ei hieuenctid drwy goluro ei hwyneb. Yn gyntaf, mae'n rhoi trwch o hufen *Ponds* ar ei chroen rhychiog sy erbyn hyn yn edrych fel hen afal sych, crebachlyd. Yna, mae'n tynnu powdwr Rhif 17 o'i bag colur glas, patrymog, ac yn ei blastro ar ei hwyneb yn hael. Wedyn, i orffen, bydd ei dwylo gwyn, gwythiennog fel darn o gaws Stilton yn crynu wrth iddi roi minlliw mor goch â golau traffig ar ei gwefusau tenau di-waed. Mae edrych yn ddeniadol yn hollbwysig i mam-gu.

Gan gadw at amserlen ddigyfnewid mae mam-gu'n mynd ar y bws bob dydd Gwener yn rheolaidd. Cyn iddi fynd i'r dre bydd mam-gu wedi mynd drwy seremoni arall wythnosol – sef trin ei gwallt. Mae ganddi wallt cwta, gwyn fel yr eira sy'n glynu'n glòs i'w phen a pherm ynddo i greu tonnau ysgafn fel tonnau mewn to sinc.

Gwaith Dosbarth

Unfed ar ddeg o Fohelfin

PORTREAD

DISGRIFAID CORFFOROL

Rhaid disgrifio wyneb person yn fanwl er mwyn creu darlun ohono. Cyfrinach disgrifio da yw defnyddio ansoddeiriau. Dyma rai syniadau i chi:



LLYGAID
gwydraidd, pŵl, oer, llym, cellweirus, sarffaidd, addolgar
diniwed, llwynogaidd, masgaredig, mesmereiddiol

GWALLT
brith, dim-ots-sut, llipa, pigog, blêr, seimllyd, cringoch, melfedaidd, hirllaes



GWEFUSAU
cusanadwy, meddal, cul, tenau, di-waed, llaith, rwber

TRWYN
hirgul, main, cochliw, cam, smwt, pigog

LLAIS
siwgraidd, cras, gwichlyd, peraidd, cwynfanllyd, ymbilgar
undonog, byddarol, melfedaidd, siarp, tyner



MWSTAS
melynfrwnt, cyrn buwch, llipa, brwsh dannedd, brwsh llawr



CORFF
bolgrwn, bolfeddal, boldew
gwargam, cefngrwm, talsyth, cwmanog
coesau *hirfain, esgyrnog, siapus, lluniaidd, cyhyrog, coes bwrdd, coes robin*
dwylo *cnotiog, garw, gorddaidd, corniog, llipa, aflonydd, meddal*
bysedd *hirfain, modrwyog, ewinbinc, esgyrnog, pwt, byrdew*

fel....

CYFFELYBIAETHAU
Mae cyffelybiaethau yn ffordd dda o greu darlun byw. Dyma enghreifftiau:
Llais gwichlyd *fel drws rhydlyd yn agor.*
Dwylo gwyn gwythiennog *fel darn o gaws Stilton.*
Wyneb gwridog *fel afal aeddfed.*
Gwallt llipa *fel gwymon ar graig.*
Gwallt byr *fel blew ar gneuen goco.*
Llygaid miniog *fel dau lafn siswrn.*
Llygaid oer *fel peli gwydr.*

Coesau hir, tenau fel clybiau golff



trwyn hir, pigog fel moronen

Llond pen o wallt fel mwng llew





Llygaid gwyrdd, disglair fel marbalis



Gwallt byr, cwta fel tamaid o falcro

Llygaid oer, blin fel ~~[illegible]~~ rhew wedi cael ei gloi yr trwyg

Llais gwichlyd fel babi blin.

Wyneb gwridog fel ~~[illegible]~~ ~~[illegible]~~ gwrach flin!

Nawfed o Fehefin
~~9/6/14~~

Gwaith Dosbarth

Treiglo'n feddal ar ôl y rhagenw 'ei' gwrywaidd

Wrth ysgrifennu portread o ddyn / bachgen, rhaid treiglo'n feddal ar ôl y rhagenw 'ei' e.e

- ei ben
- ei lygaid
- ei wallt
- ei ddwylo
- ei goesau

Treiglo'n llaes ar ôl rhagenw 'ei' benywaidd

Wrth ysgrifennu portread o ddynes / merch, rhaid treiglo'n llaes ar ôl y rhagenw 'ei' e.e

- ei phen
- ei thrwyn
- ei cheg

Rhannau o'r corff - dau ystau dwy?

Ar wahân i fysedd a bodiau mae rhannau eraill y corff yn 'ddwy' e.e

- dwy law
- dwy goes
- dwy fraich
- dwy lygaid

Gwaith Dosbarth

Sgrifennu o Offeryn

Ail ddrafftio Portread

Dafydd Sercs

Dafydd Sercs yw o i'w gwsmeriaid - David yw o i'w ffrindiau am mam, ond dad sydd yn fy nghru yw e i mi

Dyli dad ddim yr person mwy hawdd i gael ddim gyda, mae pob tro eisiau cael gwared o'r meddwl. Mae'n eistedd fel brenin yn ei gadair du, lledr yn ffonio pobman ac yn rheoli popeth. Mae'n ofn codi ôi orsedd rhag iddo golli digwyddiad ac ef colli allan yn ~~rheoli~~ tebyg yw dderyn yn ofn codi ôi nuth a gwarchod ei wyau. Nid oes gan dad dim byd gwell na gwneud pres yw gwneud ein bywyd yn well ac yw rhoi bwyd ar ein bwrdd ac cael y hwyl ôi wneud.

Mae llygaid gwedd-popeth sy'n digwydd gan dad fel barcud yn edrych am fwyd. Mae hyn yn ddrwg iawn pan rydych yn trio cael malysien addiwrtho ac mae'n dal chi yn ei wneud

Mae ganddo wyneb yn union fel pêl-droed yn grwn fel y byd. Does dim diwrnod yn mynd heibio heb iddo wneud ei seremoni flemyddiol o siafio ei wyneb yw wneud yn esmewydd.

~~Mae ganddo wyneb yn union fel pel pel-droed yn grwn fel yr byd.~~ Dydw i ddim yn cofio gweld dad erioed heb ei fochau esmu. Y peth cyntaf mae'n wneud ar ôl molchi yn y bore yw mynd i'r ystafell molchi yw coel gwared o blewyn bach ar ei fochau yw wneud yn edrych yn ddeiniadol i waith.

Yr darn mwyaf amlwg am dad ryw fyth wedi adnabod yw ei wallt. Mae ganddo wallt du, cwta gyda smotyn mawr di wallt. Mae'r smotyn yma'n serenu yn yr haul fel coron brenin pwerus yn rheoli pawb mewn yn ei weld. Mae gan dad pob esgus o dan y haul yw esbonio pam mae gan yr smotyn di-wallt fell ni sydd dros y blynyddoedd wedi wneud i colli ei wallt ond dad yw e yn yr diwedd.

Dyn bach, pwt yw dad syn atgoffa o bachdew. Mae dad yn eithaf byrdew ond gyda coesau bach, eggrnog yn tebyg i coesau bwrdd. Mae ganddo breichiau bychan yn glynu wrth ei gorff gan wneud iddo edrych fel tedi ber twt. Bysedd bach, byrdew sydd ganddo sydd gyda creithiau o pan roedd yn adeilad ty rydym yn byw ynddo heddiw.

Nid yw edrych yn deiniadol yn hollbwysig i dad. Nid oes rhaid iddo wisgo

dillad drud dim ond iddo ceel dillad i wisgo. Yr unig adeg mae dad yn gwisgo'n muy smart neu offer yw pan gorfod cyfarfod cwsmeriaid.

Llais tawel meddal sydd gan dad fel arfer, ond mae ei lais yn newid i fod yn siarp fel gwydr toredig Sydd ganddo pam mae'n flin ac yn arbennig pam mae rhywun yn beryglus ar y ffordd. Mae dad yn hoffi goffio nol i ei blentyndod ac rhannu ei hanes gyda'r teulu fel - ei ardal enedigol Sef Bryngwran ar Ynys Môn yng Ngogledd Cymru; a swydd cyntaf fel asiant yswiriant ac yna yn symud i Swydd yn Fali yr gwerthu peiriannau torri gwair ac yn y diwedd yn agor ei fusnes yn gwerthu partiau ceir ac trafnidiaeth. Ei hoff stori yw sut lwyaeth cwrdd a mam yn Newadd pentref yn Rhosneigr ac yna yn priodi ac symud i Bodedern; adeiladu tŷ; genedigaeth ei phlant Dewi a Aled. Atgofion cynnes.

Gan ei fod wedi bod ar fy ochr eriaed, fodraf ddim meddwl am fywyd hebddo. Dafydd Sercs / dad yn eisteddd yn ei gadair lledr yn ffonio pobman ac yn rhaoli popeth ac gyda smotyn di - wallt ar ei pen yn sgrenu fel coron

brenin . Dafydd Sercs

[illegible]

Rhaid yn ymgynghorol'n glir ac yn addfedrol gan ddangos ystwyrwch sydyn ambell symbiadau oddes. Mae gen ti apêl da ar y llwyfan ac mae gwaed wedi'i bwrpasiappi'n ofnes i gwen ysgrifennu. Cwbli cystrawen ac ynganiadau cywir.

(T) Mae lle i ddatblygu ambell i agwedd / bwrpasiaff ac mwy dangos mwy o ddysfuder ac mwy cywirdeb h.y. e.e pronunciation words

Lefel 6: Proffil dysgwr

Bernir bod y deunyddiau yn y blygell hon yn cynnwys proffil dysgwr sy'n nodweddu safonau cyrhaeddiad dysgwr, sydd, ar y cyfan, ar lefel 6. Dylai'r sylwebaeth alluogi'r darllenydd i weld pam y dyfarnwyd lefel 6 cyd-fynd orau i'r proffil.

Bwriad lefel y manylder a enghreifftir yma yn y sylwebaeth yw dangos sut y mae cyfiawnhau'n llawn lefel cyd-fynd orau mewn proffiliau dysgwyr. Ar gyfer dyfarnu lefel cyd-fynd orau ar ddiwedd cyfnod allweddol ac wrth gymedroli'n fewnol mewn ysgol, mae'n angenrheidiol i'r athro/athrawes gyfiawnhau bod ystod angenrheidiol y gwaith wedi'i gyflawni a'i fod o safon briodol i gyrraedd y lefel cyd-fynd orau. Yr ysgol sy'n gyfrifol o ran sut y caiff hyn ei ddangos.

Bydd proffil dysgwr, fel arfer, yn cynnwys gwaith disgybl ar draws ystod gofynion y pwnc ac yn cynnig digon o dystiolaeth i alluogi penderfyniad ynghylch pa lefel sy'n cyd-fynd orau â'r hyn a gynrychiolir yn y proffil. Dylai'r proffil dysgwr fod yr un mor glir â llyfr neu lyfrau'r dysgwr sy'n cynnig tystiolaeth o nodweddion lefelau a tharged/au cyrhaeddiad perthnasol. Gallai gwaith arall a fyddai'n cynnig darlun llawn o safonau'r dysgwr gynnwys thema/llyfr topig, recordiadau clyweledol, cofnod darllen. Bydd sylwebaeth ar y proffil dysgwr yn ei gwneud yn glir sut y penderfynwyd ar y lefel cyd-fynd orau a pham nad yw'r gwaith ar y lefel uwch neu is os ydyw yn ffiniol. Bydd y sylwebaeth yn cyfeirio at lle, yn y llyfr gwaith neu mewn darnau eraill o waith a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn, y mae tystiolaeth o gyflawniad ar lefel benodol.

Cymraeg : proffil dysgwr

Lefel 6

TC1: Llafaredd		
Sylwebaeth	**Ffynhonnell**	**Cyfeiriad**
Mae'r dysgwr yn cyflwyno gwybodaeth yn hyderus ac yn effeithiol ar y testun ' Injan Stem'. Wrth gyflwyno gwybodaeth, defnyddia gyflwyniad *PowerPoint* i atgyfnerthu'r gwaith a chyfeiria at rai o'r sleidiau, e.e. gweithdy James Watt. Mae'n ennyn diddordeb eraill drwy amrywio ei fynegiant a'i eirfa. Mae'n dangos gafael sicr ar gystrawen naturiol yr iaith lafar er bod ambell derm Saesneg yn llithro i'r cyflwyniad ambell dro, megis 'pressure'. Ar adegau eraill, defnyddia eirfa bwnc eang yn Gymraeg, e.e. 'gerau'.	Ffeil sain	1. Cyflwyniad unigol Injan stêm
Rhoddodd y dysgwr gyfarwyddiadau yn hyderus i'w gyd-dddysgwyr ar sut i newid plwg. Mae yma gyflwyniad trefnus, e.e. 'yn gyntaf …', y cam nesaf …' Mae'n ennyn diddordeb drwy amrywio ei fynegiant a'i eirfa'n bwrpasol a dengys gafael sicr ar gystrawen naturiol yr iaith lafar.	Ffeil sain	2. Cyfarwyddiadau newid plwg
Yn y gwaith grŵp, trafodir y testun 'Pwysau ar bobl ifanc'. Mae'r dysgwr yn arwain y drafodaeth drwy ofyn cwestiynau i'w gyfoedion, e.e. 'Beth am i ni drafod gwaith cartref yn gyntaf …?' Ar adegau mae'n meddwl am yr hyn a ddywed eraill gan ystyried sut a phryd i ymateb gan ddatblygu'r drafodaeth fel bo'r angen, e.e. '… Mae bwlio yn rhan arall sydd yn broblem… ' Mae'n mynegi ei farn gan gynnig tystiolaeth ar adegau, e.e. 'Mae bwlio'n gallu arwain at gymryd cyffuriau a phroblemau meddygol …' Yma hefyd, mae'n dangos gafael sicr ar gystrawen naturiol yr iaith lafar. Yn y dasg hon, mae'r grŵp yn dangos nodweddion L6 isel gan nad oes digon o ymateb i'r hyn a ddywedir gan y dysgwyr eraill.	Ffeil sain	3. Trafodaeth grŵp

TC2 Darllen:		
Wrth ymateb i'r stori fer *Dianc,* llwyddodd y dysgwr i adnabod gwahanol haenau o ystyr a chyflwyno sylwadau ar eu harwyddocâd a'u heffaith. Gwelir hyn yng nghwestiynau 3, 4 a 5. Er enghraifft, wrth drafod teitl y stori, dywed ' … Yr unig ffordd y gall Aled gael gwared o'i unigrwydd yw trwy ddianc … drwy gymryd tabledi ei fam … dyma yw dianc …'	Y stori fer *Dianc*	Tud. 3
Yn y gwaith 'Pa waith?' dengys ei fod yn gallu mynegi barn ar gynnwys ac arddull testun gan roi rhesymau i gefnogi ei sylwadau, e.e. yng nghwestiwn 8 '… mae'r rhestru'n effeithiol oherwydd mae'n nodi'n glir yr union waith sy'n dderbyniol os ydych yn iau na 14 …' ac ' … mae'r pennawd mewn blwch yn fawr ac mewn print trwm er mwyn denu llygaid y cyhoedd…'		Tud. 13
Gwna'r dysgwr hyn eto yng nghwestiynau 4 a 5 *Dianc*, e.e. '… mae … yn stiff fel procer …' yn dangos bod y darnau'n flinedig ar ôl yr ymladd. Mae'r ' … disgynodd fel llwynog yn cilio i'r fflam yn golygu bod nhw yn siomedig ac eisiau dianc i rywle saff i giddio …'		Tud. 6
LLwydda gywain, galw i gof a chrynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn eglur yn y dasg ar Kate Roberts, e.e. ' … dechreuodd yn Ysgol y Cyngor … curodd ysgoloriaeth i Ysgol Sir Gaernarfon … Ar ôl cael addysg yno … ac … Yn 1935 rhoddodd y gorau i fod yn athrawes …' Er bod gwallau iaith a mynegiant yn y dasg hon, nid yw'n amharu ar y lefel. Pe byddai'r dasg yn cael ei hasesu fel un ysgrifenedig, byddai'r lefel yn newid, ond, fel tasgau darllen, maen nhw'n nodweddu L6.		
TC3 Ysgrifennu		
Mewn llythyr, gwelir dewis bwriadol o eiriau ac ymadroddion wrth gyflwyno dadleuon, e.e. '… rwyf yn teimlo fod yn ormod i ddisgwyl inni wneud gwaith cartref ar ôl bod yn yr ysgol drwy'r dydd' a ' … pan mae rhywun yn sâl, nid yw'n gallu mynd i'r ysgol felly mae hyn yn arwain at raddau isel yn y pynciau a chanlyniadau gwael yn yr arholiadau …' Yma, gwelir y dysgwr yn datblygu ambell bwynt i gefnogi ei safbwynt. Mae'r arddull a'r cywair yn addas i'r dasg hefyd, e.e. 'Rwyf yn ysgrifennu atoch i bwysleisio fod		Tud. 18

gormod o bwysau ar bobl ifanc heddi …' ac mae yma afael sicr ar gystrawen ac idiom naturiol y Gymraeg. Mae'r dysgwr yn sillafu geiriau afreolaidd yn gywir, e.e. 'cyfleoedd' 'cymwysterau' ac 'annibynnol'. Yn ogystal â hyn, mae'r gwaith wedi'i drefnu mewn paragraffau pendant.		
Wrth ysgrifennu erthygl, y mae'r dysgwr yn gwneud dewis bwriadol o eirfa ac ymadroddion, e.e. '… mae'n dychryn rhywun i feddwl …' a '… Mae'r sefyllfa yn Zimbabwe yn frawychus …' Mae'r dysgwr yn sillafu geiriau afreolaidd yn gywir, e.e. 'ystyriwch', 'brawychus' a 'dadhydreiddiad'. Unwaith yn rhagor, mae'r gwaith wedi'i drefnu mewn paragraffau pendant. Mae'r ystod gywir o atalnodi yn cael ei ymgorffori yn y gwaith ac mae'r cyfan yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.		Tud. 28
Yn y portread personol, mae'r ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol ac mae'r dysgwr yn arddangos gwreiddioldeb wrth ddethol geiriau ac ymadroddion, e.e. 'Mae'n eistedd fel brenin …', 'Mae ganddo wyneb yn union fel pêl-droed yn grwn fel yr byd …' 'Bysedd bach byrdew …' a '… gan ei fod wedi bod wrth fy ochr erioed …' Mae'r gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol ac yn dangos fod gan y dysgwr afael gadarn ar y ffurf. Oherwydd nad oes digon o nodweddion arddull a thechnegau i gynnal diddordeb y darllenydd yn llwyr yn y dasg hon, mae'n nodweddu L5 uchel.		Tud. 36

Lefel cyd-fynd orau: crynodeb

Llafaredd – tystiolaeth o fedru cyflwyno gwybodaeth yn hyderus a gallu ennyn diddordeb eraill drwy amrywio mynegiant a geirfa. Wrth arwain trafodaeth, mae'r dysgwr yn ystyried sut a phryd i ymateb i gyfraniadau eraill. Gafael sicr ar gystrawen naturiol yr iaith lafar.

Lefel cyd-fynd orau: L6

Darllen – mae'r dysgwr yn adnabod gwahanol haenau o ystyr ac yn cyflwyno sylwadau ar eu harwyddocad a'u heffaith. Myegi barn ar gynnwys ac arddull testun gan roi rhesymau i gefnogi ei sylwadau. Yn gallu cywain, galw i gof a chrynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn eglur.

Lefel cyd-fynd orau: L6

Ysgrifennu – dewis bwriadol o eiriau ac ymadroddion wrth gyflwyno dadleuon. Gafael sicr ar gystrawen ac idiom naturiol y Gymraeg. Sillafu geiriau afreolaidd yn gywir. Gwaith wedi'i drefnu drwy ddefnydd o baragraffu pendant.

Lefel cyd-fynd orau: L6

Lefel gyfansawdd: L6